

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 4ydd Mawrth 2026

Presennol

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd), B Jones (Is-Cadeirydd), I Edwards, F Cauley, G Davies, S Evans, E Davies, E Lewis, P Jones, D Jones a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau -

Absennol –

Cynnigiodd y Cadeirydd, R Ashton croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau – Dim

Datganiadau diddordeb – Dim

Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 4ydd Chwefror 2026

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Dydy'r meter newydd dal ddim wedi cael ei osod gan Hafren Dyfrdwy. Mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad fydd y bill nesaf yn cael ei seilio ar darlleniadau'r meter newydd yn hytrach na'r rhai hanesyddol. Derbynwyd siec am £40 gan ymwelwr ddiolchgar
2. Nawdd Windfall – Mae'r Clerc wedi cael diweddariad gan y cyfreithwyr ac maent yn gaddo cwbwlhau'r cytundeb erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd angen gofyn am yr holl dyfyniadau o'r cyflenwyr gyda cadarnhad eu fod yn gallu gwneud y gwaith er gwaethaf yr oedi ac am y pris a gynigwyd yn wreiddiol
3. Y Cae Mawr – Cafwyd cyfarfod gyda Kevin Jones (contractwr torri gwair) a R Ashton, F Cauley, I Edwards a'r Clerc ar 24fed Chwefror ar y safle i drafod posibiliadau Mae yna amryw o opsiynau megis, gwahanol ffyrdd o torri'r gwair neu pori defaid a sut i gwneud llwybrau, cynnal y ffiniau ac amddiffyn y coed newydd. Mae Kevin yn gofyn am £25 yr awr i torri gwair a rhoddodd addewid i cynnig amcangyfrif am llwybr o gwmpas yr ochrau (Hex-Pave). Gan mae prin iawn o fobol sydd am defnyddio'r cae, nid oes modd cyfiawnhau'r cost o torri'r gwair felly penderfynwyd i rhoi defaid yna eto efo'r amod y gall aelodau o'r cyhoedd cerdded yn y cae.
4. Golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar yr A470 – Cafodd y Clerc cyfarfod gyda swyddfa Russell George AS ac fydd Diane Poston-Jones yn gwneud ymholiadau am y camau nesaf
5. Arolygu trefniadau rhwng y Cyngor a Claerwen yn Bont – Mae'r perchnogion wedi cytuno cadw pethau fel y mae nhw gyda'r amodau a chafodd ei amlinelli mewn llythyr. Gofynwyd i'r bin cael ei rhoi ymhellach i ffwrdd gan ei fod yn drewi yn yr haf. Clerc i cyflwyno'r cytundeb mewn llythyr i'w llofnodi
6. Hysbysfwrdd ym Mhennant - Mae'r costau wedi ei cynnwys yn y cyllideb ar gyfer y blwyddyn ariannol nesaf – Clerc a F Cauley i gydlyn ar syniadau
7. Croesfan ar yr A470 ym mhentref Llanbrynmair – Cafodd y Clerc cyfarfod gyda swyddfa Russell George AS ac fydd Diane Poston-Jones yn gwneud ymholiadau am y camau nesaf

8. 'Charging point' ym maes parcio'r pentref – Awgrymodd G Mitchell y dylai'r Cyngor aros tan ar ôl yr etholiadau ym mis Mai i weld os oes yna polisiau neu gronfeydd gwahanol i ddod ac i trefnu cyfarfod ar lein gyda'r swyddogion perthnasol ym Mhowys
9. Ffordd Pen Graig ac arwydd 'Preifat' – Cafwyd ymateb gan y perchnogion yn cynnig gosod arwydd gwahanol ac yn pwysleisio'r ffaith ei fod nhw'n cadw'r safle yn dachus ac yn lan er budreddi rhai ymwelwyr. Cyтынwyd ar arwydd addas gyda'r amod ei fydd yn ddwyieithog
10. Diweddariad ar Deffibrilwyr – Fydd deffibrilwr newydd yn cael ei osod ar toiledau cyhoeddus y pentref yn fuan iawn
11. Arwyddion traffig ffarm i Bont, Llan a Talerddig – Cafwyd ymateb gan Powys yn dweud fyddan nhw ddim yn rhoi'r math yma o arwyddion ar y ffordd
12. Paratoi biniau halen/grit – Clerc i siarad gyda trigolion Glanclegyr am y biniau ar y stâd – dim diweddariad
13. Arwydd llwybr cyhoeddus i Newydd Fynyddog – F Cauley i cydlynnu trwsio'r arwydd – dim diweddariad
14. Arwydd 'Concealed Entrance' wrth troiad Pentremawr – Clerc wedi derbyn ymateb gan Asiantaeth Ffordd ond dim penderfyniad na chynlllyn eto
15. Blwch rhoddion i'r toiledau – Cyтынwyd ar opsiwn addas, Clerc i'w brynu - £48.00
16. Poster i am cadw cŵn ar tennynau – Cyтынwyd ar opsiwn addas, Clerc i gwneud ymholiadau gyda NFU ar sut i cael gafael arnynt
17. Cyfarfod Rhanbarthol Un Llais Cymru – Ebrill y 21ain yn Llanbrynmair. Cyngor i paratoi lluniaeth – i'w trafod yn y cyfarfod nesaf
18. Sietyn yn Llan tu allan Wyngate wedi gortyfu – Clerc wedi ysgrifennu llythyr i'r perchnogion – dim diweddariad
19. Hyfforddiant Bioamrywiaeth Rhan 1af – F Cauley i'w wneud ar 23ain mis Mawrth
20. Cyfarfod Powys Cynladwy 2ail Mawrth, Theatr Hafren – Mynychwyd gan y Clerc a F Cauley
21. Golwg pentref Llanbrynmair – Trafodwyd amryw o weithredau tacluso yng nghydestyn y posibilirwydd o fuddsoddiant gan BAM (gwelwch 28). Nid oes gan y Cyngor unrhyw rheolaeth dros eiddo preifat . Clerc i ofyn i Open Reach trwsio'r ffens wrth y maes parcio
22. Adroddiad SoNaRR – Astudiaeth o cyflwr bio-amrywiaeth (yn dirywio), newid hinsawdd (cynhesu niweidiol) a llygredd a gwastraff (risg i iechyd corfforol, amgylcheddol ac ariannol) gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae casgliad yr adroddiad yn datgan fod rheolaeth cyfredol y tri elfen yma yn anghynladwy. Cyтынwyd i cyfeirio at yr adroddiad wrth ystyried effaith gweithgareddau'r Cyngor ac i wreiddio egwyddorion cynladwy ymhob penderfyniad
23. Arwydd ar gyfer Station House – Nid ydy'r rheolwyr am rhoi arwydd i'r tŷ ac mae hyn yn achosi ymwelwyr i fynd ar goll. Cyтынwyd y byddai newid y côd post o gymorth i sat-navs
24. Adroddiadau yn y Blewyn Glas – Cyтынwyd i cyfrannu newyddion sylweddol i'r papur yn hytrach na manylion pob dydd, ee: pan fydd y llwybr i Tafolwern yn cael ei cwblhau
25. Nenfwd y stafell snwcer – Clerc i gwneud ymholiadau ynglyn a rheolaeth ffurfiol yr adeilad
26. Contracts a taliadau aml ar gyfer y blwyddyn ariannol newydd – Cyтынwyd ar ddogfen taliadau aml a contract newydd glanhawyr y toiledau (arwyddwyd gan y Cadeirydd). Cyтынwyd ar codiad cyflog i'r Clerc i adlewyrchu profiad (o level 6 i 7 yn ôl canllawiau 'National Joint Council for Local Government Services')
27. Gardd fler yng Nghlanclegyr – Mae yna dipyn o gordyfiant yng ngardd 103 ond credwyd ei fod yn dŷ preifat felly nid oes llawer o siawns dylanwadu ar y sefyllfa

28. Buddsoddiant gan cwmni BAM - Mae'n bosib fydd y cwmni yn gallu buddsoddi adnoddau a llafur yn y gymuned yn dilyn eu gweithgareddau gyda Network Rail yn Nhallerddig. Cyтынwyd i ddanfôn rhestr o posibiliadau atynt i'w ystyried
29. Golau i'r llwybr rhwng y garejes a'r Ganolfan yng Nghlanclegyr – Hoffai G Mitchell gweld y garejes yn cael ei ddymchwil er mwyn gwneud lle ar gyfer parcio ychwanegol i trigolion ond does dim symudiad gan Powys ar y syniad eto. Ychwanegwyd yr angen am golau at y cynllyn ac yn y cyfamser cynigwyd defnyddio rhai solar

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont, Llan, Talerddig a Llanbrynmair	Ie	Prynwyd 'cut out' plastig o heddwas gyda camera cyflymder. B Jones i rhoi rhyw fath o atgyfnerthu ar ei gefn
Llifogydd ar y B4518 wrth Maesgwian		Clerc i adrodd i Powys
Cyflwr Ffordd Bryneinty		G Mitchell i drafod gyda Powys
Cyflwr y ffordd rhwng Llan a Dolgadfan		Clerc i adrodd i Powys
Cyflwr y ffordd i Cwm Tafolog		Clerc i adrodd i Powys

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Coed rhwng Station Garage a Pont Brics angen eu thorri	Ie	Network Rail wedi tocio'r coed ar ei tir nhw. Clerc i gwneud ymholiadau am y darn o sietyn nesaf wrth ymyl Llysun
Arwyneb y ffordd o gwmpas Pont Bel		Clerc i adrodd i NMWTRA

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Cofnodion Un Llais Cymru o cyfarfod 02/02/26

Cynllunio

- Application Reference: 26/0171/FUL. Grid Reference: E:289475 N: 311558
Proposal: Conversion of barn for holiday let use with the installation of a package treatment plant and all associated works
Site Address: Yr Allt , Mallwyd, Machynlleth, Powys SY20 9HS
Cyтынwyd i cefnogi'r cais

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 19/02/26

Cyfrif Cyfredol	£7,595.60
Cyfrif Cadw	£3,019.75
Cyfanswm	£10,615.35

Sieciau heb eu cyflwyno £0
Balans ar gael £10,615.35

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
04/03/26	Cyflog y Clerc – Chwefror	£417.60	Cytynwyd
04/03/26	Treth ac NI ar cyflogau - Chwefror	£104.40	Cytynwyd
04/03/26	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Chwefror	£80.00	Cytynwyd. Mae'r costau yma yn cael ei talu gan nawdd o Menter Iaith Maldwyn
04/03/26	Andrew Mears – Glanhau'r toiledau - Chwefror	£200.00	Cytynwyd
04/03/26	E.ON Next – Chwefror	£19.95	Cytynwyd
04/03/26	Andrew Mears – Dadblocio toiledau	£50.00	Wedi cytuno ar ebost 09/02/26 gan R Ashton, P Jones, S Evans, F Cauley a E Davies - Wedi talu
04/03/26	Costau'r Clerc – Trafeilio a 'Laminating Pouches'	£25.89	Cytynwyd
04/03/26	Un Llais Cymru – Aelodaeth blyneddol	£216.00	Cytynwyd

- Anfoneb wedi ei ddanfoni i Powys am nawdd tuag at costau'r toiledau

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- B Jones – Croes Heol, Ffordd Pandy, cerrig a dibyn
- B Jones – Angen hongian y giât yn well rhwng y Cae Mawr a'r Cae Bach
- G Mitchell – 'Local Impact Report' ar gyfer datblygiad Fferm Wynt Esgair Galed gan Bute Energy
- F Cauley – Ffordd wrth troiad Foel a dibyn ddwfn wrth y ffordd ger Isfryn, Bont
- F Cauley – Cyfathrebu trwy Facebook a'r we-fan
- I Edwards – Tyllau yn y ffordd wrth Llwynceilyn
- I Edwards – Llwybr o Ddolfach i Lanbrynmair.

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar Nos Fercher, 1af mis Ebrill 2026.

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair